

## Aderyn y mis: HUGAN *Morus bassanus*

enwau Cymraeg eraill a gasglodd Dewi Lewis\*: y gan, gwylan fawr, mulfran wen, mulfran lwyd, gŵydd y weilgi, gwylanwydd, gwylan dydd, gŵydd lygadlan, gans, gandan, hucan, garnet, garnat, gander, gŵydd wyllt (Aberdaron)

sethor

(Cernyweg: saethwr?)

morskoul

(Llydaweg: morheliwr)

fou de Bassan

(Ffrangeg: twpsyn craig y Bass)

gannet

(Saesneg: bolgi)



Llun: Alun Williams

## CYNHADLEDD ENWAU LLEOEDD



Cymdeithas Edward Llwyd/Bwrlwm Eryri  
Prosiect LLÊN NATUR

## Cynhadledd Enwau Lleoedd

Plas Tan y Bwlch 20 Tachwedd 2010

Mae Prosiect Llên Natur Cymdeithas Edward Llwyd yn estyn croeso gwresog i chi i'r ail Gynhadledd Flynyddol. Testun y gynhadledd eleni fydd enwau lleoedd a byddwn yn edrych ar wahanol agweddau o'r maes trwy gyflwyniadau gan unigolion a chyrrff gwirfoddol a phroffesiynol.

**Agorir y Gynhadledd gan y Gweinidog Treftadaeth Alun Ffred Jones**

*Dyma rai o'r cwestiynau y byddwn yn ymdrin â hwy:*

- beth all enwau lleoedd ddweud wrthym?
- enghreifftiau o gasglu a dehongli enwau
- beth yw statws enw lle mewn cyfraith?
- enwau lleoedd a'r Arolwg Ordnans?
- rôl y cyrrff cyhoeddus parthed enwau lleoedd
- amddiffyn enwau yng nghefn gwlad?
- cymdeithasau enwau lleoedd gwledydd eraill

*Sefydlu CYMDEITHAS ENWAU LLEOEDD CYMRU*

*Fel nod i'r gynhadledd gobeithir gosod seiliau Cymdeithas i ymdrin a'r pwnc. Gobeithir enwi trefnyddion, ac adnabod amcanion breision.*

Archebwch eich lle yn awr. Sieciau (yn daliadwy i Gymdeithas Edward Llwyd) i Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3YU. £5 (cofrestru) £12 (cofrestru a cinio)

## Gweddio am i'r glaw beidio

Hysbyseb yn y wasg yng Nghaernarfon dyddiedig 12 Medi 1872: "Gwlybaniaeth yr Hin. Cyfarfod Gweddio i'r dref yn gyffredinol (o bob enwad) am 7 o'r gloch heno (Nos lau) ...Yr oeddyd yn teimlo yn ddwys fod yd ein gwlad allan, a rhan fawr o honno ar lawr, ac mai dal i dywallt y mae costrelau y nefoedd; fod y tywydd presennol yn drygu defnydd ein hymborth yn ddirfawr...mae'n sicr y bydd prinder yn y wlad hon...Dan yr amgylchiadau hyn yr ydym yn credu mai ein dyletswydd a'n braint ydyw troi at yr Arglwydd, yr hwn yn unig a all "rwyddo godreu'r cymylau"....ac os bydd i ni fel gwlad...neshau mewn edifeirwch a ffydd ato, yr ydym yn credu y cawn ein gwrandaw (Job 37. 6,7; 38. 37; Iago 5. 17, 18)...yng nghapel Moriah"

Argraffwyd H Humphreys, Caernarfon

## Ffynnon Cybi gan Jennifer Cairns

*This small well is to be found opposite Capel Maes y Fynnon on the road into Llanybi from Lampeter.*

Casglodd Jenny y dyfyniadau canlynol o Parochialia Edward Llwyd am y ffynnon hon:

*Ffynnon weñ is a spring in ye parish to ye West tradic'only said to be very medicinal & effectual to cure distempers. Ye times of repairing to it is Ascension Eve: they wash in ye spring: & yn [then] repaire to a stone hard by called Llech*



*gybi: wch is supported by other stones: & by ye stone ye sick person lyes all yt [that] night after his washing in ye spring. On Ascension Eve they resort to Fynnon wen after they have washed ym selves at ye well. They go to Llech Gibi yt is an arrows flight from ye well. There they put ye sick under ye Llech where if ye sick sleeps it is an infallible sign of recovery, if not of death.*

## Morgrug adeiniog

Rhuthun 26 Gorffennaf 2010 am tua 7 o'r gloch ar noson drymaidd gweddol gynnes, penderfynodd trigolion cannoedd o nythod morgrug hedfan i'r awyr yn Rhuthun. Roedd 'na o leiaf 10 o nythod yn fy ngardd innau - i gyd yn arllwys morgrug adeiniog i'r awyr. Tybed sawl nyth sydd na yn Rhuthun i gyd? Rhai miloedd mae'n siŵr.

Gwyn Williams

Dyma ddyddiadau eraill hedfan morgrug (yn nhrefn amser) yn NYDDIADUR Llên Natur: Minehead 26 Medi 1946: "Mr. A. V. Comish saw Jackdaws hawking flying ants . Sidmouth, Dyfnaint; 13 Awst 1987: "pla, pawb yn sylwi". Birmingham, 6 Awst 1988: cwyno mawr eu bod yn mynd i bob man. Harlech, 11 Awst 1988: Porthdinlaen. 4 Medi 1988. Trefor, Arfon. 12 Awst 199X; Cwmistir, Tudweiliog 19 Awst 1990. Ynys Enlli 28 Gorffennaf 1992. Waunfawr 24 Awst 1994 "yn blastar dros y lôn". Foryd Caernarfon 29 Awst 1994. Pontrug 6 Awst 2002: "criw mawr o wylanod penddu uwchben". Waunfawr; 26 Gorffennaf 2006: "ar hyd y lonydd a'r ceir (wel, un car llwyd, nid ar un coch wrth ei ymyll!)". Dulyn, 24 Gorffennaf 2008: adroddiad radio o Iwerddon. Llansadwm 28 Gorffennaf 2008: "Overcast during the evening with flying ants emerging; last year they were seen here on 23 August. Soon eight or more large dragonflies were overhead picking them off, it was a spectacular flying display". Ydyn nhw fel petae nhw'n hedfan yn gynharach heddiw?

## Siff saffiaid yr hydref



Llun: Alun Williams

Mae'r siff saff yn gyfarwydd i lawer ohonom fel un o'r adar y gwanwyn sydd gyda'r cyntaf i'n cyrraedd. Mae ei siff-siff-siff undonog yn hawdd ei adnabod, ond faint ohonom sydd yn sylweddoli ei fod

yn canu'n rheolaidd yn yr hydref hefyd (*recrudescence* ydi'r gair technegol am hyn).

Dyma bori trwy gofnodion DYDDIADUR Llên Natur i weld beth sydd yno am y pwnc - dyma'r dyddiadau yn nodi ei gan hydref: 10 Medi 1977; 30 Medi 1992, 10 Medi 1998, 24 Medi 2005, 5 Hydref 1992, 4 Hydref 2008; 2 Hydref 2009

## Chwart o fwyar Berwyn

Yn rhifyn 16 Gorffennaf 1873 o Faner ac Amserau Cymru gwelir y cyfeiriad difyr hwn at Fwyar y Berwyn: "Dywedir fod yn y 5ed ganrif sant o'r enw Donwar yn preswyllo yn Llanrhaeadr ym Mochnant...y traddodiad ymhlith hen



fugeiliaid Berwyn ydoedd mai'r hyn a dderbynai Dewi Sant bob blwyddyn am ei wasanaeth yn Llanrhaeadr oedd chwart o fwyar Berwyn, a hefyd ei bod yn hen arferiad a deddf yn y plwyf fod y sawl a ddygai chwart o'r mwyar hyn yn aeddfed i'r parson [sic] ar fore dydd gŵyl Donwar a gaed maddeuant o'r hyn a oedd yn ddyledus fel taliadau eglwys am flwyddyn. Enw gwyddonol y llysieuyn yw 'Rubus Chamoemorus', ac mewn rhai blynyddoedd bydd ei ffrwyth yn dra phrin. Dywedir i dad Syr Watkyn gynnyg [sic] pum swllt amryw droion am bob mwyaren aeddfed a ddygid iddo. Ni wyddid paham yr oedd yn rhoddi'r fath bris arnynt."

Viv Williams, Blaenau Ffestiniog

## Tywydd cyndroni...

Digwyddais fod yn sgwrsio hefo'r Dr Goronwy Wynne yn ddiweddar. 'Roedd hi'n ddiwrnod tamp, trymaidd a chlos a dyma fi'n deud wrtho: mae hi'n dywydd cyndroni, Gron (Cymraeg Sir Fflint am gynrhoni)

### ..a thyrchod Sir y Fflint

Mi ddaru'r sylwadau ar dyrchod ar dudalen 6 Cylchgrawn Llên Natur 3 fy nghatgoffa o'm plentyndod; tua hanner canrif yn ôl. Cofiaf am y teulu'n dal 30 o dyrchod hefo trapiau yn ystod mis Awst! Mi roedd hi'n hanfodol gwybod y cyfeiriad 'roeddynt yn mynd a dod. Cofiaf weld tua dwsin wedi crogi ar wifren bigog ryw hanner milltir oddi yma. Deallais tra'n blentyn eu bod yn cael eu sychu cyn iddynt gael eu troi'n fenig - ond pa faint o wirionedd oedd yn hyn, tybed?

Y ddau sylw gan Mair Lloyd Williams, Trefynnon

## Celf y creigiau


Dyma wefan dda yn dangos y gelf archeolegol sydd ar gael yng Nghymru:

<http://www.rock-art-in-wales.co.uk/index.html>



## Cnocio drws Iwerddon

Mae Iwerddon yn hynod am absenoldeb amryw o anifeiliaid sydd yn gyffredin i ni, megis y twrch daear, y dylluan frech, y llyg cyffredin ac wrth gwrs, gwiberod. Tan



yn ddiweddar nid oedd y gnozell fraith yno chwaith, ond dyma'i dosbarthiad hi erbyn hyn. Honnir yn d d i g o n rhesymol bod y dosbarthiad

hwn yn dystiolaeth mai o Gymru y daeth i'r wlad - ond cnocell, aderyn digrwydr yn ôl pob golwg, yn mudo dros y môr Celtaidd? Pam rwan (yn hytrach na chanrifoedd yn ôl), a sut? Mae sawl ateb posibl: mwy o goed heddiw yn Iwerddon? Mwy o longau yn tramwyo rhwng y ddwy wlad a mwy o gyfle i fachu pas? Mwy o gnozellod yng Nghymru yn chwilio am diriogaeth? Rhywun o Ddilyn yn ffansio nhw? Oes yna bosibiliadau eraill?

Diolch i Cólín MacLochlainn a Dick Coombes am ganiatad i gyhoeddi'r map. Dyma ddywed The Migration Atlas (Wernham ac eraill) y BTO: "The only overseas [ringing] recovery so far is of a ringed bird at Dungeness Bird Observatory [Caint] in September 1962 that was recovered in Belgium in November of the same year and seems likely to have been an immigrant returning home. There have been no recoveries of foreign-ringed birds in Britain & Ireland"

## Shakespeare eto

Diolch i Bethan Wyn Jones am dynnu ein sylw i drosiad Gwyn Thomas o Midsummer Night's Dream (Breuddwyd Nos Wyl Ifan) a'r cyfeiriad at y teim (Bwletin 30):

"Mi wn am lain lle tyf y teim yn wyrdd,  
A llysiâu'r parlys, fioledau fyrdd,  
A glwys yn do i'r fan mae gwyddfid pêr,  
Miaren Mair a rhosys dan y sêr."

## Y clwt olaf - eto

Difyr oedd darllen am y clwt olaf o eira ar y Carneddau yn y Bwletin [Rhifyn 30]. Buom ninnau yn dilyn hynt yr eira ola hefyd – trwy'r binocs roeddem yn gweld y darn bach ola yn diflannu ar 18 Mehefin. Flynyddoedd yn ôl nid oedd yn anghyffredin iawn gweld clwt o eira ym Mehefin ond dim yn ddiweddar. Roedd eira parhaol i'w weld o'r tŷ yma yn rhywle ar wyneb ogleddol Eryri o 17 Rhagfyr 2009 tan 18 Mehefin 2010. Efallai ei fod yno ddiwrnod neu ddau cyn 17 Rhagfyr. Roeddwn oddi cartre' am wythnos cyn y 17eg.

Llŷr Gruffydd

## A mwy am aeafau yn yr haf (Bwletin 28)

Meddai WM Burroughs yn The Times 4 Medi 1980: "the 4 consecutive bad summers of the 1590s are said to have inspired Shakespeare's...The seasons alter: hoary headed frosts / Fall in the fresh lap of the crimson rose' "(Titania, Midsummer Night's Dream). A chyfieithiad Gwyn Thomas eto: "A thrwy yr annhymeredd hwn fe welwn ni'r/Tymhorau'n newid: a barrug briglwyd/Yn cwmpo ar arffed ir y rhosyn coch...". (ac yn y DYDDIADUR, 10 Gorff 2002: "rhosynnod gwyllt yn eu gogoniant", Dyffryn Conwy)

## Ar ôl y sychder, glaw Gorffennaf 2010

Dyma graff "deg uchaf" glaw mis Gorffennaf yn Llansadwrn, Mon, gan Don Perkins es 1928. Gorffennaf 2010 oedd y gwlypaf. Ac meddai Huw Holland Jones: "The Met Office has confirmed that July was the second wettest in Gwynedd in over 100 years of records (since 1900)". Y flwyddyn 1938 oedd y llall. Dyma ddywedwyd ar y pryd:

25ain; Wel dwl iawn a pycsiau o wlaw o hyd...Y mae y dywydd wedi troi a phobl yn methu cael gwair. 27ain; Wel yr oedd gwlaw mawr gyda'r nos ac felly aros yn y ty. 29ain; Glaw i'w disgwyl heddiw ac es i ddechrau trwsio ffenestr ty nesa hefo weiren netting. 30ain; Wel glaw uffernol eto...Wel ni fu Test Match yn wir ond glaw mawr. Mae wedi gwneud haf difrifol o wael ac y mae rhai wedi torri gwair ac ni chefais ddowc eto). Beth yw dowc tybed?

Dyddiadur OT Griffiths, Llangristiolus

## Beth ddiwyddodd?



Pwy ddodwodd yr wyau, a pham ar y corff? Tybad a'i Cigydd Mawr neu Gefngoch oedd wedi sodro'r gwyfyn ar yr eithin? Tynnwyd y llun ym Môn

Llun gan Wil Williams

## Pidyn-y-gog ..eto.

Diddorol oedd gweld llun o Bidyn y gog y gors yn rhifyn tri o gylchgrawn




Llên Natur. Mae llawer o rhain yn tyfu yn y coed ger yr afon Cymerau ym Mhwillheli. Dyma lun un wedi blodeuo. Harri Lloyd

Ac meddai Wendy McCarthy, cofnodwr planhigion Gwynedd: "Diolch yn fawr, doeddwn i ddim yn gwybod am y safle yna. Mae planhigyn yma (*Lysichiton americanus*, *American skunk cabbage*) wedi cael ei gofnodi o Ddolwyddelan, Sling (ger Tregarth) a Phont Wgan (ger Rowen). Felly, cofnod newydd ydi hwn, ac yr un cynta o SH33. Estron ydi o, ac mae'n rhaid inni gadw llygad arno fo.

(diolch i [www.llansadwrn-wx.co.uk](http://www.llansadwrn-wx.co.uk))

Top 10 wettest Julys in Llansadwrn since 1928 with annual totals





## Mwy am lili Llyn y Gader

Yn Rhifyn 27 cyfeiriais at y liliâu gwynion y soniodd TH Parry Williams amdanynt yn ei gerdd i'r planhigyn hwn. Awgrymais fod y gerdd yn ddigon manwl i roi Cyfeirnod Grid yr Arolwg Ordnans i leoliad y lili yng nghyfnod y bardd, ac o'r disgrifiad "wrth droed Y Garn" cynigiais SH567522. Cynigiais hefyd y gallai'r liliâu fod yno yn yr un fan o hyd. Dyma Jeremy Williams yn derbyn yr her, ac fe ymwelodd â'r llecyn ar 1 Awst 2010. Dyma yr ysgrifennodd i'r Bwletin: *Rachel and I braved the bogs around Llyn-y-Gader at Rhyd-ddu today in search of lilies. We first saw fish jumping, then some sparse bog bean. Then, just off the end of the old quarry spoil spur, a patch of lilies with a few large rocks in the water beyond. If you were wandering around the lake, it would be just the spot you might stop for a picnic. Dry slate spoil to sit on, a view across the lake to Rhyd-Ddu, Moel Eilio ridge, Yr Wyddfa and Yr Aran, and a patch of lilies, perhaps in flower. There is a close-up photo of the flower heads, perhaps you can tell if they are just pre- or just post-flowering. We saw some water lilies in flower down by Llyn Padarn about a month ago, and from their appearance, my guess is 'post'. The grid ref is very close to the one given, SH 5669 5209 [sef, fel cyfeirnod 6-ffigwr SH567521...go dda ynte?]. Dyma un o'r lluniau dynnodd Jeremy:*



Tybiaf wrth y ffrwythau mai'r lili ddŵr felen yw hon, nid y wen. Roedd gan y bardd yr hawl i'w drwydded farddonol decini! (*Brandy bottle* oedd y ffrwyth i'r bardd John Clare)

## Lluniau agos: y corn carw



Dyma'r ail mewn cyfres o luniau agos o wyfnod gan Aled Jones, Penrhyndeudraeth. Mae'r lluniau yn cynrychioli naws arbennig y patrwm sydd nid yn unig yn deillio o gefndir artistig Aled, ond mae'r lluniau hefyd yn debyg o aros yn ein cof wrth i ni ddysgu gwahaniaethu un gwyfyn oddiwrth y llall. Llun cyntaf Aled yn y gyfres hon oedd y fforch arian (Bwletin 21). Gwyfyn y corn carw sydd ganddo y tro yma. Ewch i'r Oriol ar y wefan i weld llun mwy cofensiynol o'r gwyfyn.

## Yr Efwr Enfawr



Dyma ddywed y ffotograffydd o Lydaw Gabriel Queré a dynnodd y lluniau hyn o *Heracleum mantegazzianum* mis Mehefin eleni yn y cefn gwlad o gwmpas Moscow: *Le nom russe de la plante: "Borchtchevyk". On m'a raconté en Russie que, dans la région de 'GRYGOROVO", où je l'ai photographiés, elle fut introduite à l'initiative de Khrouchev qui, la faisant venir des USA, désirait qu'elle servit de fourrage pour les vaches. Ces dernières [y gwartheg] n'ont pas du tout apprécié le caractère urticant de la dite plante!!! Cette dernière [y planhigyn] est devenue envahissante. [...cafodd ei gyflwyno ar gais yr arlywydd Krushchev o'r UD fel bwyd gwartheg - ond yn aflwyddiannus gan nad oedd y gwartheg yn gwerthfawrogi natur coslyd y planhigyn, ac mi ddaeth yn bla].* [The Observer 1 Awst 2010 (Robin McKie): *The Russian capital is sweltering in temperatures that reached a record 37.7C last week. Vast stretches of peat bog surrounding the city have dried out and caught fire covering Moscow with choking fog. Elsewhere more than 2000 Russians - many drunk - drowned trying to cool off in lakes and rivers and at least 10 million hectares of crops have been ruined. States of emergency have been declared in 23 regions.*]